BBC

British Broadcasting Corporation
Broadcasting House, London W1A 1AA

From the Director-General

9 Mai 2024

Delyth Jewell
Cadeirydd, Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg,
Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

Annwyl Delyth,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 21 Mawrth 2024 ac am gopi o adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, "Y Sefyllfa Bresennol: Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru", a gyhoeddwyd ar 25 Mawrth 2024.

Rydym yn ddiolchgar i chi a'r Pwyllgor am yr adroddiad sy'n tynnu sylw at ymrwymiad parhaus y BBC i gynulleidfaoedd yng Nghymru, ac i economi greadigol Cymru. Rydym yn cydnabod ac yn croesawu eich sylwadau, sy'n tynnu sylw at gynnydd teilwng y BBC fel rhan o'i rhaglen Ar Draws y DU. Rydym hefyd yn nodi argymhellion y Pwyllgor mewn cysylltiad â chyllid ac adrodd ar faterion polisi datganoledig.

Fel y nodir yn eich adroddiad, mae'r gorfforaeth wedi cynyddu ei buddsoddiad mewn cynnwys sy'n cael ei gynhyrchu yng Nghymru yn dilyn y penderfyniad i gynhyrchu rhagor y tu hwnt i Lundain. Er enghraifft, y llynedd roedd y BBC wedi dyblu ei buddsoddiad mewn radio rhwydwaith wedi'i gynhyrchu yng Nghymru, ac mae BBC Cymru Wales wedi comisiynu ei harlwy drama mwyaf erioed. Mae'r BBC yn falch o weld cynulleidfa cynnwys BBC Cymru ar iPlayer, BBC Sounds a BBC News ar-lein yn cynyddu'n sylweddol o un flwyddyn i'r llall, ac o fod wedi cefnogi'r penderfyniad i ymestyn oriau darlledu Radio Cymru 2 yn ystod y misoedd diwethaf. Mae'r BBC yng Nghymru wedi dangos uchelgais glir ac mae ei strategaeth cynnwys wedi dwyn ffrwyth, fel y gwelir yn y ffigurau cynulleidfa eleni.

O ran ein newyddion rhwydwaith, mae'r BBC wedi ymrwymo i adrodd ar y cenhedloedd datganoledig ar draws ein darpariaeth Newyddion a Materion Cyfoes, a drwy ein hallbwn sy'n benodol i'r cenhedloedd. Fel y mae'r pwerau datganoledig wedi cynyddu, rydym wedi

/...2

ymdrechu i fod yn fwy clir i gynulleidfaoedd ar draws newyddion rhwydwaith o ran pa straeon sy'n berthnasol i bob cenedl, a beth yw'r effaith arnynt. Fel rhan o'n darpariaeth, rydym hefyd yn esbonio'r gwahaniaethau mewn polisi rhwng y cenhedloedd i helpu'r gynulleidfa i ddeall polisïau a lefel ddemocrataidd y bobl sy'n gwneud y penderfyniadau. Byddwn yn parhau i arloesi ar draws BBC News ac yn chwilio am ffyrdd newydd o adrodd straeon datganoledig er mwyn gwella dealltwriaeth cynulleidfaoedd ar draws ein hallbwn.

Yn gywir,

**Tim Davie**
**Cyfarwyddwr Cyffredinol**